



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Monitro Marwolaethau Gwres yng Nghymru

Adroddiad Gwyliadwriaeth Blynyddol 2024

Tachwedd y 13^{eg} 2025



Canfyddiadau Allweddol

Mae hyd yn oed penodau gwres byr yn gysylltiedig â mwy o farwolaethau yng Nghymru.

Er nad oedd ton wres genedlaethol yng Nghymru yn 2024, roedd cyfnod gwres byr o 28 Gorffennaf i 2 Awst yn gysylltiedig â chynnydd ystadegol arwyddocaol mewn marwolaethau dyddiol, yn enwedig ymhlith oedolion hŷn.

Mae oedolion hŷn a phoblogaethau trefol mewn perygl.

Pobl 85 oed a hŷn a brofodd y cyfraddau marwolaethau uchaf, a gwelodd ardaloedd trefol fwy na threblu'r gyfradd marwolaethau o'i gymharu â rhanbarthau gwledig. Fodd bynnag, mae angen ymchwilio i'r cysylltiad â gwres.

Roedd marwolaethau yn yr haf yn uwch na'r cyfartaledd, ond mae'r cysylltiad â gwres yn parhau i fod yn ansicr.

Er bod Cymru wedi cofnodi mwy o farwolaethau yn haf 2024 na'r cyfartaledd pum mlynedd cyn y pandemig, mae'r adroddiad yn rhybuddio rhag priodoli'r cynnydd hwn i amlygiad i wres yn unig. Mae angen dadansoddiad pellach i ddeall rôl gwres yn erbyn ffactorau tymhorol neu ddemograffig eraill.



Crynodeb Gweithredol

Cyfnodau gwres

- **Ni ddatganwyd unrhyw donnau gwres cenedlaethol** yng Nghymru yn 2024, fodd bynnag, cyrhaeddwyd trothwyon tonnau gwres lleol yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe rhwng 29 Gorffennaf a 1 Awst 2024.
- Diffinwyd cyfnod gwres cenedlaethol fel **28 Gorffennaf i 2 Awst 2024**.

Marwolaethau cyffredinol

- Yn ystod y cyfnod gwres amcangyfrifwyd bod **557 o farwolaethau** (95% CI: 511-603).
- Roedd y **marwolaethau dyddiol cymedrig yn 93 o farwolaethau** (95% CI: 87-99), yn sylweddol uwch na'r 84 o farwolaethau (95% CI: 82-86) a welwyd y tu allan i'r cyfnod gwres (pob diwrnod nad oedd yn gyfnod gwres yn haf 2024). Er bod cynnydd ystadegol arwyddocaol mewn marwolaethau dyddiol yn ystod y cyfnod gwres, ni ellir casglu achosiaeth oherwydd diffyg addasiad ar gyfer dryswyr a diffyg cymhariaeth hydredol.
- Cofnodwyd cyfanswm o 10,310 o farwolaethau o bob achos yng Nghymru yn ystod haf 2024, gan ragori ar y cyfartaledd pum mlynedd cyn y pandemig o 9,839 o farwolaethau (CI 95%: 7,386–9,832), sy'n dangos cynnydd sylweddol ym marwolaethau haf 2024.

Ffactorau demograffig

- Roedd gwahaniaethau sylweddol mewn marwolaethau yn ôl oedran, gyda'r uchaf i'w weld ymhlith oedolion 85 oed a throsodd gyda **39 o farwolaethau fesul 100,000** (CI 95%: 26-52).
- Ni welwyd unrhyw amrywiad mewn marwolaethau yn ôl rhyw.
- Ni welwyd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol mewn marwolaethau o bob achos ar draws cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD); fodd bynnag, y cofnododd yr ail gwintel mwyaf difreintiedig (Cwintil 2) y gyfradd uchaf (3.4 fesul 100,000), tra bod y lleiaf difreintiedig (Cwintil 5) â'r isaf (2.6 fesul 100,000).

Amrywiad daearyddol

- Profodd ardaloedd trefol gyfradd marwolaethau o bob achos sylweddol uwch o **48 marwolaeth fesul 100,000** (95% CI: 37–59) o'i gymharu ag ardaloedd gwledig o **14 marwolaeth fesul 100,000** (95% CI: 8–19).
- Ni welwyd unrhyw amrywiad ystadegol arwyddocaol rhwng byrddau iechyd.

Lleoliadau

- Ysbytai oedd yn cyfrif am y gyfran uchaf o farwolaethau o bob achos (45%) ac yna marwolaethau gartref (31%) ac mewn cartrefi gofal (17%), fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwyddocaâd ystadegol i'r amrywiad hwn yn ôl lleoliad marwolaeth.